

Diwylliant a Hamdden: Y Cynghorydd Peter Bradbury



UCHELGAIS PRIFDDINAS



Mae pobl yn dwlu byw yng Nghaerdydd. Un o'r prif resymau am hyn yw diwylliant, siopa a chwaraeon gwych ein dinas. Cafodd Caerdydd ei henwi gan ei dinasyddion ei hun yn un o'r 3 dinas orau yn Ewrop ar gyfer lleoliadau diwylliannol, siopa a manau cyhoeddus, ac ymysg y gorau ar gyfer cyfleusterau chwaraeon, parciau a manau gwyrdd. Er yr heriau cyllidebol mawr rydyn ni'n eu hwynebu, mae'r Weinyddiaeth hon yn benderfynol o sicrhau na fydd hyn yn newid. Bydd hyn yn golygu gwneud pethau'n wahanol, gweithio'n agosach gyda phartneriaid a grwpiau cymunedol ac, yn hanfodol, bod yn fwy arloesol a chreadigol gyda'n hasedau.

Mae Caerdydd yn un o brifddinasoedd mwyaf gwyrdd Ewrop. Rydyn ni'n ffodus o gael Parc Bute yng nghanol y ddinas ac rydym yn falch bod 10 o barciau ein dinas wedi cyflawni statws baner werdd am y tro cyntaf y llynedd. Mae'r Weinyddiaeth hon yn gwybod faint mae ein trigolion yn gwerthfawrogi parciau ein dinas, a byddwn yn gwneud popeth yn ein gallu i'w cadw'n wych yn wyneb toriadau cyllidebol. Gallwn fod yn falch o'n manau glas hefyd; a byddwn yn cyflwyno cynlluniau cyffrous ar gyfer dyfodol Bae Caerdydd.

Roedd cynnal Rownd Derfynol Cynghrair y Pencampwyr – digwyddiad chwaraeon mwya'r byd eleni – yn wych i Gaerdydd ac i Gymru. Rydyn ni wedi dangos eto fyth fod ein prifddinas yn gallu cyflawni ar y llwyfan uchaf. Roedd yn ymdrech wych gan bawb. Flwyddyn nesaf, bydd Ras Môr Volvo yn dod i Gaerdydd am y tro cyntaf erioed; y tro cyntaf ers 12 mlynedd iddi ddod i Brydain. Mae angen mwy o ddigwyddiadau fel hyn arnom ni. Maen nhw'n allweddol i'n heconomi a'r hyn sy'n gwneud Caerdydd yn lle gwych i drigolion, gweithwyr a myfyrwyr.

Byddwn yn:

- **Denu mwy o ddigwyddiadau mawr i'r ddinas**, gan adeiladu ar lwyddiant Rownd Derfynol Cynghrair y Pencampwyr.
- Gwella'r profiad ymwelwyr yn sylweddol ym Mae Caerdydd, Pentir Alexandra a Chei'r Fôr-Forwyn, gan adeiladu ar dreftadaeth ddiwydiannol unigryw Caerdydd.
- **Denu mwy o bobl i leoliadau ac atyniadau'r Cyngor**, gan gystadlu â'n cystadleuwyr masnachol a'u trechu.
- Gweithio gyda phartneriaid i ystyried cynnig i fod yn **Brifddinas Diwylliant Ewrop**.
- Darparu'r bartneriaeth **Caerdydd Greadigol** gyda Phrifysgol Caerdydd.
- **Parhau gyda'r fenter Caerdydd Gyfoes** gyda chymuned gelfyddydau'r ddinas.
- **Sicrhau dyfodol cerddoriaeth fyw** yn Stryd Womanby drwy weithio gyda chymunedau busnes a chelfyddydau'r ddinas.
- Gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu **Strategaeth Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol** Caerdydd, gan sicrhau bod gwasanaethau rheng-flaen yn canolbwyntio ar gynyddu cyfranogiad mewn chwaraeon a gweithgareddau corfforol a datgloi mwy o gefnogaeth i gyfleusterau chwaraeon, **chwarae a gweithgareddau corfforol, yn benodol yng nghymunedau mwyaf difreintiedig ein dinas**.
- Datblygu menter i annog **dull gweithredu cyhoeddus mwy rhagweithiol o ran strydoedd a gerddi blaen, parciau poced** a manau gwyrdd anffurfiol.
- Diogelu a gwella parciau, manau gwyrdd a manau agored cyfleus Caerdydd drwy greu **dull gweithredu mwy masnachol a hunan-gynaliadwy**. Bydd cynlluniau gwella mawr newydd yn canolbwyntio ar Barc y Rhath, Fferm y Fforest a lleoliadau eraill.
- Datblygu rhwydwaith uchelgeisiol o "Gyfeillion" a grwpiau gwirfoddol drwy amrywiaeth o bartneriaethau a rhaglenni i fanteisio i'r eithaf ar werth cymdeithasol cyfranogiad dinasyddion.
- Gweithio mewn partneriaeth i ailddechrau hwylio ar **Gronfa Ddŵr Llanisien**.